| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 26 Mehefin 2025 |
| **Aelod Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cludiant a'r Amgylchedd, Cyng. Barry Mellor |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad, Emlyn Jones |
| **Awdur yr Adroddiad** | Rheolwr Traffig a Chludiant, Mike Jones |
| **Teitl** | Trefniadau Gorfodi ar gyfer Parcio |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Egluro polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer dynodi cyfyngiadau parcio, sut mae'r rhain yn cael eu gweithredu ac yna sut maen nhw'n cael eu gorfodi.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Yn dilyn cais gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau i archwilio a oes gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer dynodi cyfyngiadau parcio ac ar gyfer trefniadau gorfodi.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cyflwyno sylwadau ar bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer dynodi cyfyngiadau parcio a threfniadau gorfodi ar gyfer parcio.

# 4. Manylion yr adroddiad

Cyfyngiadau parcio

4.1. Mae cyfyngiadau parcio yn rheoli pa weithgarwch parcio a llwytho a all ddigwydd ar ochr y ffordd ac na all ddigwydd ar ochr y ffordd. Fe'u ceir yn bennaf yng nghanol dinasoedd, trefi a phentrefi lle mae llawer mwy o alw am gael parcio ar ochr y ffordd na'r lle sydd ar gael.

4.2. Yn ogystal â'r galw am leoedd parcio (gan gynnwys lleoedd parcio i ddeiliaid bathodynnau glas), bydd galw yn aml am fannau llwytho i fusnesau, safleoedd bysiau, safleoedd tacsis a'r angen i gadw ardaloedd yn glir o geir wedi parcio am resymau gweledededd a diogelwch ar y ffyrdd, e.e. ger cyffyrdd a chroesfannau i gerddwyr.

4.3. Fel arfer, bydd cyfyngiad amser penodol ar leoedd parcio ar y stryd a bwriad hyn yw annog trosiant rheolaidd o ran y gofodau parcio, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd modurwyr yn dod o hyd i le pa bynnag amser o'r dydd y maen nhw'n cyrraedd.

4.4. Gan fod cyfyngiadau parcio fel arfer eisoes ar waith mewn lleoliadau mor brysur, mae'n anarferol "dechrau o'r dechrau" wrth ystyried cyfyngiadau parcio mewn unrhyw leoliad. Gall newidiadau i gyfyngiadau parcio ddigwydd yn dilyn cais gan aelod o'r cyhoedd, yn aml trwy Gynghorwyr Sir eu ward. Gallan nhw hefyd fod yn ofynnol yn rhan o brosiect newydd sy'n newid cynllun y ffordd; yn rhan o fesurau adfer diogelwch ar y ffyrdd lle mae gwrthdrawiadau wedi digwydd yn y gorffennol; neu'n rhan o ddatblygiad newydd a newidiadau i ddefnydd tir.

4.5. I ddechrau, fel arfer caiff cynigion neu geisiadau ar gyfer cyfyngiadau parcio eu trafod yn anffurfiol ymysg swyddogion a'r Cynghorwyr Sir lleol i ystyried manteision ac anfanteision posibl y cyfyngiadau.

4.6. Er y gall cyfyngiadau parcio ddatrys un broblem, gallan nhw'n aml achosi canlyniadau anfwriadol eraill. Dyna pam mae angen eu hystyried yn ofalus bob amser. Er enghraifft, byddai cael gwared ar fannau parcio i leihau tagfeydd

traffig yn debygol iawn o arwain at gynnydd yng nghyflymder traffig. Yn yr un modd, mae'n debygol y bydd cerbydau sydd wedi parcio yn cael eu dadleoli gan gyfyngiadau newydd, a allai arwain at unigolion yn parcio mewn lleoliadau mwy peryglus nag o'r blaen.

4.7. Mae angen ystyried pa mor aml mae trefniadau gorfodi ar gyfer parcio yn digwydd hefyd wrth werthuso ai cyfyngiadau parcio yw'r dewis gorau i ddatrys problem benodol, yn enwedig mewn ardaloedd preswyl lle mae trefniadau gorfodi yn debygol o fod yn llawer is o'i gymharu â lleoliad canol tref.

4.8. Felly, caiff ceisiadau am gyfyngiadau parcio eu hystyried yn ofalus ac os yw’n werth eu gweithredu, cânt eu rhoi ar ein rhestr ni o geisiadau am gyfyngiadau parcio. Yn gyffredinol, rydym ni’n ceisio grwpio cyfyngiadau yn ôl lleoliad daearyddol er mwyn sicrhau effeithlonrwydd.

4.9. Mae gweithredu cyfyngiadau parcio yn gyntaf yn gofyn am wneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig sy'n orchymyn cyfreithiol. Mae gwneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn dilyn proses statudol fel y caiff ei nodi yn *Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Lloegr a Chymru) 1996*. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol a hysbysebu'r cyfyngiadau arfaethedig drwy hysbysiad cyhoeddus. Gall unrhyw un wrthwynebu gwneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, ar yr amod eu bod nhw’n gallu rhoi sail ddilys dros eu gwrthwynebiad. Dim ond drwy Benderfyniad Dirprwyedig Aelod Arweiniol, neu drwy Benderfyniad y Cabinet, y gall y Cyngor wrthod gwrthwynebiadau. Dim ond ar ôl i'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig gael ei wneud y gellir cyflwyno'r marciau ffordd a'r arwyddion traffig cysylltiedig.

4.10. O ran arwyddion a marciau ffordd, mae'n bwysig ceisio lleihau nifer yr arwyddion a'r llinellau sydd eu hangen i'r gofyniad statudol sylfaenol, er mwyn osgoi annibendod diangen. Mewn ardaloedd cadwraeth, mae'r Rheoliadau'n caniatáu inni ddefnyddio llinellau melyn culach a goleuach i leihau eu heffaith weledol.

<u>Gorfodi</u>

4.11. Cafodd trefniadau gorfodi ar gyfer parcio eu dad-droseddoli yn Sir Ddinbych yn 2004. Gwnaeth hyn alluogi Sir Ddinbych i wneud trefniadau gorfodi ar gyfer parcio yn y Sir drwy gyflogi staff a elwid yn wreiddiol yn “Wasanaethwyr Parcio”. Fodd bynnag, cawsant eu hailenwi’n Swyddogion Gorfodi Sifil yn 2008, gan fod y Llywodraeth wedi gweithredu Deddf Rheoli Traffig 2004. Cyn 2004, yr Heddlu oedd yn ymgymryd â’r gwaith o wneud trefniadau gorfodi ar gyfer parcio drwy gyflogi Wardeiniaid Traffig.

4.12. Mae'r tîm gorfodi ar gyfer parcio yn gyfrifol am orfodi cyfyngiadau parcio mewn meysydd parcio yn ogystal â pharcio ar y stryd drwy gyflwyno Rhybudd Talu Cosb. Mae lefelau'r dirwyon yn cael eu gosod gan y llywodraeth ganolog.

4.13. Mae 6 aelod o staff yn rhan o dîm gorfodi ar gyfer parcio'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys 1 Uwch Swyddog Gorfodi Sifil a 5 Swyddog Gorfodi Sifil.

4.14. Mae swydd yr Uwch Swyddog Gorfodi Sifil yn wag ar hyn o bryd oherwydd yn drist iawn, bu farw deiliad blaenorol y swydd, Mr Stuart Thomas, ym mis Rhagfyr 2024. Roedd Stuart wedi gweithio yn y tîm gorfodi ar gyfer parcio ers (DYDDIAD). Mae ei gydweithwyr yn y tîm gorfodi ac ar draws y Cyngor yn gweld ei eisiau’n fawr iawn fel ffrind, ac am ei frwdfrydedd a'i broffesiynoldeb yn ei waith.

4.15. Rydym ni’n bwriadu recriwtio unigolyn ar gyfer y swydd Uwch yn ddiweddarach eleni.

4.16. Mae'r tîm gorfodi ar gyfer parcio yn dîm bach, sy'n gyfrifol am y sir gyfan, 7 diwrnod yr wythnos. Felly mae'n bwysig ein bod ni’n sicrhau bod y swyddogion yn cael yr effaith fwyaf posibl drwy eu defnyddio nhw mewn amrywiaeth o leoliadau ledled y sir, gan sicrhau nad yw’r trefniadau gorfodi yn dilyn patrwm rheolaidd.

4.17. Mae Atodiad A yn manylu ar y Rhybuddion Talu Cosb a gyhoeddwyd ledled y sir ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25. Mae'r ffigurau'n dangos Rhybuddion Talu Cosb a roddwyd yn ein meysydd parcio a Rhybuddion Talu Cosb a roddwyd am droseddau parcio ar y stryd.

4.18. Mae gweithdrefnau statudol ar waith ar gyfer modurwyr sy'n dymuno apelio yn erbyn dirwy. Y Bartneriaeth Prosesu Cosbau Cymru sy'n ymdrin â'r rhain ac mae'n cael ei gynnal gan Gyngor Sir Ddinbych, sy'n darparu gwasanaethau i Sir Ddinbych a naw awdurdod lleol arall yng Nghymru.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae cyfyngiadau parcio yn hanfodol i sicrhau bod parcio'n cael ei reoli'n effeithiol, ac mae'n ceisio cadw ffyrdd yn ddiogel i bob defnyddiwr a sicrhau bod trosiant gofodau parcio'n digwydd yn rheolaidd er budd busnesau lleol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae cost trefniadau gorfodi ar gyfer parcio fel arfer yn debyg i'r refeniw a geir o roi Rhybuddion Talu Cosb. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu inni osod targedau ar gyfer swyddogion gorfodi o ran nifer y Rhybuddion Talu Cosb a roddir. Mae'n rhaid defnyddio unrhyw incwm dros ben ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig fel cynnal a chadw meysydd parcio.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les a pha newidiadau sydd wedi, neu a fydd yn cael eu cyflwyno i'r prosiect neu'r ymagwedd o ganlyniad i'r asesiad?

7.1. Ni chynhyrchwyd Asesiad o'r Effaith ar Les gan mai adroddiad ar bolisïau a gweithdrefnau presennol yn unig yw hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Dim, gan mai adroddiad penodol yw hwn a ofynnodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau amdano.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen hyn gan nad yw'r adroddiad yn cynnig unrhyw newidiadau i bolisïau na gweithdrefnau presennol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae gan y Cyngor ddyletswyddau dan *Ddeddf Rheoli Traffig 2004* i sicrhau bod traffig yn symud yn rhwydd, a dyletswyddau dan *Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988* i gyflwyno mesurau i leihau ac atal damweiniau. Mae trefniadau gorfodi effeithiol ar gyfer parcio yn elfen bwysig o ran cyflawni'r dyletswyddau hyn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Adran 7.4.2 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio o ran astudio effaith penderfyniadau a defnyddio polisïau.

Swyddog Cyswllt: Rheolwr Traffig a Chludiant  Rhif ffôn: 01824 706959